Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal digwyddiadau Gwyddor Gymdeithasol

Bydd digwyddiadau eleni yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd, Llundain a Belfast.

Bydd y digwyddiadau yn cynnig cyfle gwych i unrhyw un yn y gymuned gwyddorau cymdeithasol wybod sut mae gwyddor gymdeithasol yn llywio llunio polisi go iawn yng nghyd-destun llywodraethol. Yn ogystal â dysgu am waith a blaenoriaethau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), a thrafod syniadau, gallwch chi rwydweithio gydag arbenigwyr o'r byd academaidd, o'r diwydiant a'r maes polisi trwy gydol y digwyddiad. Byddwn ni'n arddangos ehangder gwyddor gymdeithasol yn yr Asiantaeth, sy'n cwmpasu'r ymchwil ddiweddaraf ar raglenni blaenllaw megis Rheoleiddio Ein Dyfodol a delio â throsedd bwyd yn ogystal â thrafod sut rydym yn cymhwyso methodolegau arloesol a thechnegau newid ymddygiadol.

Yn yr ASB, rydym ni'n gwneud yn si?r bod ein dealltwriaeth o'r hyn y mae pobl ym mhob rhan o'r gadwyn fwyd yn ei feddwl, yn ei deimlo ac yn ei wneud yn llywio ein hasesiad risg a'n mesurau rheoli risg. Rydym ni'n casglu data cynradd yn ogystal â defnyddio ffynonellau data eilaidd drwy ddilyn dulliau ymchwilio gwyddor gymdeithasol – asesiadau tystiolaeth cyflym, adolygiadau llenyddol a systematig, arolygon, treialon rheoledig, astudiaethau achos, ymchwil arsylwi a dadansoddi data gweinyddol ac arolwg – i fesur, disgrifio, egluro, rhagfynegi a gwerthuso ffenomenau cymdeithasol ac economaidd i wneuthurwyr polisi.

Gallwch chi gofrestru drwy ddilyn y dolenni isod. Mae lleoedd yn gyfyngedig.

- 12 Tachwedd 2018 – Caerdydd
- 5 Tachwedd 2018 – Llundain
- 13 Tachwedd 2018 – Belfast